# Datganiad Blynyddol 2022/2023

## Proffil y Darparwr

### Gwybodaeth Darparwr i'w chyhoeddi

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â gwybodaeth a oedd gan AGC am y darparwr hwn a'i wasanaethau cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi i chi. Nid oes camau gweithredu i'w cwblhau. Caiff y wybodaeth hon a ddangosir ei chynnwys yn y Datganiad Blynyddol cyhoeddedig.

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr: | Seren Ffestiniog Cyf |
| Roedd y darparwr wedi'i gofrestru ar: | 08/11/2018 |
| Mae'r canlynol yn rhestru amodau'r darparwr: | Nid oes unrhyw amodau a osodwyd yn gysylltiedig â'r darparwr hwn |
| Y gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarparwyd gan y darparwr hwn oedd: | |

| Seren Ffestiniog Cyf | |
|---|---|
| Math o wasanaeth | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Math o Ofal | Dim |
| Dyddiad Cymeradwyo | 08/11/2018 |
| Unigolyn/Unigolion Cyfrifol | Rona Morgan |
| Rheolwyr | Aled Williams |
| Ardal Partneriaeth | Gogledd Cymru |
| Amodau Gwasanaeth | Nid oes unrhyw amodau yn gysylltiedig â'r gwasana eth hwn |

### Hyfforddiant a Chynllunio Gweithlu

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant y staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Mae pob gweithiwr yn meddu neu weithio tuag at gymhwyster add as i'w cyfrifoldeb.<br>Mae anghenion hyfforddant yn cael ei gytuno yn y cyfnod anwyth o,cyfarfodydd chwaterol goruchwylio swydd a'r cyfweliad blynyddo l gwerthuso.<br>Cynhelir hyfforddiant wyneb yn wyneb neu ar lein. Mae Gweithwyr Proffesiynol yn arwain rhai sesiynau.<br>Trefnir hyfforddiant craidd i bawb gyda hyfforddiant penodol ychw anegol mewn ymateb i anghenion unigolion.<br>Mae staff yn dilyn rhaglen anwytho lawn wyneb yn wyneb neu ar l ein.Holir staff am effeithiolrwydd y rhaglen anwytho mewn perthyn as a'u cyfrifoldebau.<br>Cynhelir Pwyllgor Cefnogi staff yn chwarterol er mwyn cynllunio a monitro y rhaglen hyfforddiant. |
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer recriwtio a chadw'r staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Mae gan y Cwmni Bolisi Recriwtio.<br>Defnyddir Cwmnïau arbenigol a Chyfryngau cymdeithasol i hysby seb swyddi.Mae cyfweliad wyneb yn wyneb i bob ymgeisydd llwyd diannus .Mae unigolion wedi cymryd rhan yn y broses cyfweld i rai swyddi.<br>Mae gofynion iaith ar gyfer swyddi Seren gyda'r Gymraeg yn hanf odol. Llwyddwyd i benodi 94% gweithwyr rhugl yn y Gymraeg.<br>Mae 100% o staff a wnaeth ymateb i holiadur yn nodi eu bod yn h apus gyda'u cyfrifoldeb /awyrgylch gwaith .<br>Cant roi barn ar y trefniadau anwytho. |

## Proffill Gwasanaeth

### Manylion y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Enw'r Gwasanaeth | Seren Ffestiniog Cyf |

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn | 01766832378 |
| Beth yw'r brif iaith/ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu eich gwasanaeth? | Cyfrwng Cymraeg |
| Ieithoedd eraill a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | Cymreaeg a Saesneg |

## Darpariaeth Gwasanaeth

### Pobl a Gefnogir

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y bobl y gwnaeth y gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | 9 |

### Ffioedd a Godir

| | |
|---|---|
| Isafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 14.42 |
| Uchafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 39.38 |

### Cwynion

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyfanswm y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 2 |
| Nifer y cwynion gweithredol sydd heb eu penderfynu | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau | 2 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau'n rhannol | 0 |
| Nifer y cwynion na chawsant eu cadarnhau | 0 |
| Pa drefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r modd y cafodd y gwasanaeth ei redeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein busnes drwy adroddiadau ans awdd allanol, monitro sefyllfa ariannol ac anfon holiaduron at ein unigolion, cysylltiadau proffesiynol ,staff a rhieni.<br>Ymgynghorir drwy:<br>1.Cyfarfodydd chwarterol gydag Uwch Swyddogion Adran Anable ddau Dysgu Gwynedd i drafod y Gwasanaeth ynghyd a chynllunio ar sail cryfderau neu argymhellion.<br>2.Mynychu cyfarfodydd Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu er mwyn rhannu gwybodaeth am y Cwmni.<br>3.Mynychu cyfarfodydd Ysgol/Coleg ar gyfer oed trosiannol er mw yn rhoi darlun teg i ddarpar ddefnyddwyr am y Gwasanaeth i'w hw yluso i wneud penderfyniadau.<br>4.Rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd aml asiantaethau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>5.Sicrhau bod rhiant ar Fwrdd Llywodraethu Seren gyda chyfarfo dydd y Bwrdd yn cael eu cynnal lleiafswm o bob deufis.<br>6.Bwletin Newyddion Chwarterol y Cwmni.<br>7.Cyfarfodydd Blynyddol gyda Phennaeth Adran Oedolion a Llesi ant.<br>8.Tudalen Facebook yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau. |

### Cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Nodwch unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) | Ie |
| Triniaeth ac Addysg Plant sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH) | Na |
| Makaton | Ie |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | Na |
| Arall | Na |

Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol baratoi'r datganiad cydymffurfio.

Mae AGC wedi cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal sy'n cynnwys cyngor ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y datganiad cydymffurfio.

Trefnwch eich datganiad cydymffurfio'n unol â'r pedwar maes llesiant isod.

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt. | Mae sawl dull gan y cwmni o wrando ar leisiau unigolion.Gwneir hyn drwy gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn ffordd gyfeillgar a gofalus. Atgyfnerthwyd hyn mewn adroddiad diweddar AGC sef bod unigolion yn cael eu cynnwys yn eu gofal a bod staff yn gwrando arnynt.<br>Mae ymweliadau cyson gan UC yn gyfle arall i fynegi barn gyda sylwadau mwyaf diweddar yn nodi eu bod yn cael eu trin a pharch a bod yn staff sydd yn eu cefnogi yn gyfeillgar.<br>Bydd unigolion yn rhan allweddol o lunio ac adolygu eu Cynlluniau Gofal gyda gwasanaeth eiriolwr yn cael ei hyrwyddo.Cafwyd adborth positif ar y dull o hyrwyddo cydweithio gyda'r gwasanaeth yma.<br>Mae'r unigolion yn gallu mynegi eu barn yn eu mam iaith gyda hyn yn hwyluso trafodaeth. Un unigolyn sydd angen defnydd o'i iaith cyfathrebu PECS<br>Yn yr holiadur diweddar a rannwyd gyda unigolion nodwyd:<br>• Eu bod yn hapus gyda'r staff oedd yn eu cefnogi<br>• Bod y staff o fewn y cwmni yn gyfeillgar.<br>• Eu bod yn teimlo eu bod yn cael rhyddid.<br>• Eu bod yn cael gofal da eu bod yn byw mewn cartref glan ac yn cael bwyd da.<br>• Eu bod yn cael trafod a gwneud penderfyniadau<br>Mae'r unigolion yn falch o fod yn ganolog wrth lunio eu rhaglen wythnos sydd yn cynnwys profiadau gwaith,ymweliadau a chyrsiau Coleg.<br>Mae cyfleoedd hefyd i gyd gymdeithasu a ffrindiau gyda ymweliadau teulu yn cael ei hwyluso.<br>Mae ymweliadau lleol ynghyd a gwyliau i ffwrdd o'r cartref yn cael eu trefnu ar gais unigolion.<br>Mae unigolion yn rhan o'r broses apwyntio staff ar gyfer rhai swyddi. Maent yn cael rhoi barn ar addasrwydd staff sydd yn eu cefnogi. Mae enghreifftiau lle bod staff wedi ei newid ar gais unigolion.<br>Cesglir canfyddiadau gweithwyr proffesiynol a theulu unigolion ( fel yn berthnasol) ddwywaith y flwyddyn .Defnyddir e bost neu alwadau ffôn ar gyfer hyn. Bydd hyn yn gyfle pellach i gasglu unrhyw farn sydd wedi eu rhannu gyda hwy gan yr unigolion.<br>Mae Trefniadau Cwyno yn cael ei egluro i'r unigolion gyda copi o'r polisi yn eu cartrefi mewn arddull fyddai yn ddealladwy neu wedi eu hegluro iddynt.<br>Mae gan bob unigolyn weithiwr allweddol ac maent yn eu cyfarfod o leiaf un waith yr wythnos a hyn mewn man tawel gan sicrhau cyfrinachedd. Mae Rheolwr Gofal yn ymweld â chartrefi yn wythnosol a hyn yn gyfle pellach iddynt leisio barn.<br>Mae gan un unigolyn gyfle i gyfarfod eu gweithiwr cymdeithasol ar eu pen ei hunan.<br>Be byddai staff yn teimlo nad yw llais unigolion yn cael sylw anogir trafod y mater gyda Rheolwr neu ddilyn Polisi Chwythu Chwythu Chwiban. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol yn barhaus. Ar gyfer plant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. | Mae Seren yn ymroddedig i sicrhau bod pob unigolyn yn cael e u trin a pharch gyda'u hanghenion yn cael eu hystyried.<br>Bydd cydweithio gydag Unigolion ar eu Cynllun gofal. Ceir arwei niad gan Weithwyr Proffesiynol a theulu.<br><br>Mae gwasanaeth Eiriolaeth yn cael ei wneud yn hysbys.<br><br>Cyd-drefnir adolygiad blynyddol meddygol ,asesiadau cyson ga n y tîm meddygol lleol ,arbenigwyr meddygol , deintydd, optegy dd, arbenigwr clyw fel enghraifft.<br>Mae rhai unigolion angen cymorth iechyd meddwl a hyn yn cael ei hwyluso.<br>Mae staff yn cael eu hyfforddi ar gyfer gweinyddu meddyginiaet h. Mae'r trefniadau yn cael eu gwirio'n fanwl.<br><br>Mae bwydlen/diet wythnosol yn cael ei gytuno gyda'r unigolion a hwy yn cynorthwyo gyda'r siopa .Mae pob unigolyn yn cael rh an yn y dewis ac yn cael ei atgoffa o bwysigrwydd diet cyflawn. Mae'r mwyafrif o'r cynlluniau gofal yn monitro bwydydd /hylif i w eld patrymau iechyd.<br><br>Yn adroddiad diweddar AGC nodwyd bod unigolion yn cael eu cyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen a b od y staff yn cefnogi'r bobl mewn modd cynnes, caredig a gofal gar.<br><br>Wrth gytuno ar raglen Cefnogaeth Weithgar mae digonedd o g yfle i unigolion gael dewis gweithgareddau allan yn yr awyr agor ed, cyfrannu yn y gymuned a phrofiadau byd gwaith gyda'r nod o ddatblygu hyder a sgiliau .<br>Gall unigolion fanteisio ar gyrsiau Coleg gyda'r cyrsiau yn cael eu cynnig yn wythnosol.<br>Cynigir sesiynau cyfrannol ar gyfer Canu,Dawnsio,Ioga a Touc h Trust.<br>Mae cyfleoedd i gyd gymdeithasu gyda Chlwb Seren yn bwysig iawn i'r unigolion.<br>Mae pob unigolyn yn cael cyfle i fynd i ffwrdd o'u cartref am sei biant yn unol â'u dyheadau.<br>Gyda phob gweithgaredd mae asesiadau risg yn cael eu llunio gydag asesiadau risg positif yn berthnasol.<br>Mae cartrefi unigolion yn rhai cyfforddus a braf. Mae gan bob c artref ardd neu fan diogel yn yr awyr agored.<br>Mae unigolion yn cymryd cyfrifoldebau o fewn y cartref er mwyn hyrwyddo annibyniaeth.<br>Mae pob unigolyn wedi gofyn am gymorth gyda gofalu am eu ar ian.Mae gwiriadau manwl cyson yn cael eu cynnal ynghyd a lle diogel i gadw arian .<br>Gydag adolygiad cyson o'r cynllun gofal ynghyd a chyfarfodydd staff cyson mae addasiadau i'r cynlluniau gofal yn sicrhau bod ymateb buan i newidiadau mewn gofal.<br>.Mae cefnogaeth ar gael yn eu mamiaith gan staff sydd wedi eu cynhwyso i ofalu amdanynt.<br>Derbynnir sylwadau gan unigolion drwy sgyrsiau wyneb yn wyn eb a holiaduron barn.Mae ymweliadau Unigolyn Cyfrifol yn gyfle i asesu effeithiolrwydd y gefnogaeth Iechyd a lles.<br><br>. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Mae Polisïau a Threfniadau i Ddiogelu Unigolion.<br>Rhenni'r y polisïau yn y cyfnod cynefino gyda mynediad parhau s ar Borth cyfrifiadurol.<br>Mae trefniadau yn eu lle i apwyntio staff yn ddiogel.<br>Mae pob staff benodir yn dilyn sesiwn Gynefino.<br>Caiff staff newydd gyfnod cysgodi swydd cyn cadarnhau y swyd d a'r cyfnod prawf.<br>Y Rheolwr Gofal yw'r Swyddog Diogelu.Mae'n gweithio yn agos gyda'r U.C.Dilynir canllawiau Diogelu Gwynedd.<br>Mae pob staff yn derbyn Hyfforddiant Diogelu a hyfforddiant ar drefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid Urddas a Pharch.<br>Mae cyfarfodydd wythnosol gyda unigolion i sicrhau eu bod yn t eimlo yn ddiogel.Mae gwiriadau pellach gan Reolwr Gofal wrth i ddo ymweld a chartrefi.<br>Bydd yr U.C.yn gwirio y cartrefi o leiaf bob 3 mis er mwyn rhoi c yfle i unigolion fynegi barn neu bryder .<br>Rhennir holiaduron barn i unigolion gyda 100%yn yr holiadur di weddar wedi nodi eu bod yn teimlo yn ddiogel.<br>Yn yr adroddiad AGC nodwyd bod trefniadau diogelu wedi ei ad olygu gyda'r trefniadau yn profi gwelliant.<br>Mae y cynlluniau gofal yn cael eu gwirio bob 3 mis gyda adolygi ad llawn bob blwyddyn.<br>Mae nifer staff i unigolion yn cyd-fynd a'r cynllun.<br>Mae Hyfforddiant ar ysgrifennu asesiadau risg ar gael i bawb g ydag asesiadau yn cael ei gwirio'n barhaus.<br>Yn adroddiad diweddar gan AGC nodwyd bod Cynlluniau Gofal Personol ac Asesiadau Risg yn adlewyrchu anghenion unigolio n .<br>Gwneir gwiriadau manwl a chyson o arian unigolion gydag arian yn cael ei gadw dan glo.Mae lle diogel i gadw eiddo unigolion.<br>Mae adnoddau arbenigol yn cael eu gwirio. Mae gwiriadau tan yn cael eu cynnal yn gyson.<br>Mae Rheolwr AD a Prif Weithredwr yn meddu ar gymhwyster NE BOSH.<br>Mae holl staff gyda bathodyn adnabod. Mae cartrefi yn cael eu cadw'n ddiogel.<br>Mae Polisi Chwythu Chwiban yn cael ei egluro i staff yn y cyfno d cynefino .Byddai mater o gonsyrn yn cael ymchwiliad llawn.<br>Mae gan y Cwmni Bolisi Parhad Busnes. Pe byddai argyfwng ,g all unigolion cael eu hadleoli'n ddiogel mewn gwesty 3* o eiddo' r Cwmni .<br>Mae holl staff wedi mynychu hyfforddiant craidd Cymorth Cyntaf a Diogelwch Bwyd.<br>Mae perthynas dda gan unigolion a Heddlu Cymunedol .<br>Mae defnydd o sustemau digidol /ffonau ar gyfer unigolion yn c ael eu cytuno gyda'r unigolion.<br>Mae staff ar ddiwedd pob sesiwn gwaith yn cael amser i dderby n a throsglwyddo gwybodaeth er budd lles a diogelwch unigolio n.<br>Mae sustem ar alwad effeithiol gyda Rheolwyr yn ymateb yn syt h i ddelio ac unrhyw bryder.<br>Cedwir a rhennir gwybodaeth yn unol â Chanllawiau Deddfwria ethol. |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

## Nifer y swyddi a throsiant staff

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yn y gwasanaeth (ar 31 Mawrth) | 25 |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am bob math o staff gan gynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi ac sy'n wag, yr hyfforddiant a gafwyd, y trefniadau cytundebol sydd ar waith a chymwysterau'r staff hynny.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir ymwneud â'r cyfnod y mae'r aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r darparwr yn unig.

| | |
|---|---|
| Y Math o Staff | |

| Rheolwr y gwasanaeth | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 1 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 0 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 0 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 1 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 1 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Deddfwriaeth gallu Meddyliol/DOLS<br>Hyfforddi'r Hyfforddwr - Codi a Symud a Thrin |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 1 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 0 |

| Dirprwy reolwr y gwasanaeth | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 2 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 1 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 2 |
| Codi a Chario | 2 |
| Diogelu | 2 |
| Dementia | 1 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 1 |
| Hylendid Bwyd | 2 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Gofal Unigolyn Ganolog<br>Hyfforddi'r Hyfforddwr - Codi a Symud a Thrin |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 2 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |

Aelodau eraill o staff goruchwylio

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 3 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 2 |
| Iechyd a Diogelwch | 2 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 1 |
| Codi a Chario | 2 |
| Diogelu | 2 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 1 |
| Hylendid Bwyd | 0 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Cadw Cofnod<br>Cynllunio Person Ganolog<br>Lles<br>Sgiliau Goruchwylio |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 3 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 3 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 2 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 1 |

Uwch-weithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 29 |
| Nifer y swyddi gwag | 3 |

## Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 21 |
| Iechyd a Diogelwch | 19 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 11 |
| Codi a Chario | 15 |
| Diogelu | 21 |
| Dementia | 2 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 2 |
| Hylendid Bwyd | 18 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Glanweithdra Bwyd<br>Disffasia<br>Ymwybyddiaeth o gyflwr Awtistiaeth<br>Cefnogi Epoilepsi a rhoi medasalin |

## Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 29 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 7 |

## Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 16 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 11 |

## Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 9 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 20 |

### Mathau eraill o staff

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys unrhyw fathau o rolau ychwanegol ar wahân i'r rheini a gaiff eu rhestru eisoes? | Ie |
| Rhestrwch deitl(au) y rôl a disgrifiad byr o gyfrifoldebau'r rôl. | Staff yn darparu gwasanaeth Gofal dydd .<br>Mae'r staff yma yn daraparu gwasanaeth dydd drw y gefnogi unigolion i :<br>Ddatblygu Sgiliau Gwaith mewn amryw o leoliadau.<br>Feithrin Iechyd a Lles.<br>Datblygu sgiliau symudedd<br>Cymryd rhan mewn Gweithgareddau hamdden<br>Datblygu Hyder a Sgiliau Cyfathrebu |

## Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 12 |
| Nifer y swyddi gwag | 2 |

**Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.**

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 5 |
| Iechyd a Diogelwch | 5 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 0 |
| Codi a Chario | 6 |
| Diogelu | 10 |
| Dementia | 0 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 0 |
| Hylendid Bwyd | 7 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | Iechyd Meddwl yn cyfrif<br>Cadw Cofnod Gwybodaeth<br>Lles Unigolion<br>Diogelu rhag Heintiau a Rheolwi Heintiau<br>Arbed Cwympo<br>Dysffasia<br>Epilepsi<br>Delio gyda Ymddygiad Heriol<br>Cyfathrebu effeithiol<br>Cynllunio Gweithgareddau<br>Touch Trust.<br>Sgiliau Cyfrifiadurol ar gyfer dogfennu Cefnogaeth Weithgar(4 piler).<br>Hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol, Threfniada u Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) a'r Diogeliad au Amddiffyn Rhyddid. |

**Trefniadau Cytundebol**

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 12 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 1 |

**Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.**

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 6 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 5 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 1 |

**Cymwysterau Staff**

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol | 8 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 4 |